# Papur Bwrdd

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

13 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y Papur:** | NRW B B 39.17 |
| **Noddir y Papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | Craffu |
| **Argymhelliad:** | Nodi materion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried y <u>tymor hir:</u>**<br><br>**Defnyddio dull <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithrediadol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br><br>Mae map ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn nodi ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Trwy'r gwaith a wnawn a'r ffordd rydym yn ei wneud, bydd CNC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella llesiant, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ledled Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel hefyd. |

## Pwnc

1. Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phobl

## Cefndir


2. Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio'r prif faterion a datblygiadau diweddar mewn perthynas â llesiant, iechyd a diogelwch, gan roi diweddariad, y prif ystadegau a dadansoddiad yn ogystal â chrynodeb byr o'r cynnydd a wnaed o ran materion penodol.

# Asesu

# Llesiant ac iechyd

### Ystadegau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2016–17

3. Rhwng mis Mai 2016 a mis Ebrill 2017, y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl oedd 7.1 diwrnod a gollwyd ar gyfer pob gweithiwr bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 3.2%. Meincnod CNC yw dim mwy na saith diwrnod wedi'u colli i bob gweithiwr, sy'n cyfateb i 3.1%. Mae cymariaethau blaenorol wedi dangos bod cyfraddau absenoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yn is nag y maent o fewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r tabl isod yn dangos y duedd o ran absenoldeb fesul mis ers mis Gorffennaf 2016.




4. Mae iechyd meddwl yn parhau i fod y rheswm pennaf dros absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, gyda system resbiradol, system dreulio a'r system gyhyrysgerbydol a meinwe gyswllt yn ail, trydydd a phedwerydd yn y drefn honno. Mae'r rhesymau hyn yn cyfrif am 64.5% o gyfanswm yr absenoldeb a adroddwyd.

5. Mae ein data iechyd galwedigaethol yn cael ei roi i ni ar sail chwarterol gan ein darparwr iechyd galwedigaethol, fel yr amlinellir yn nhermau'r contract. Yn y tri mis diweddaraf, mae ein data iechyd galwedigaethol yn dangos bod 47% o'n hatgyfeiriadau rheoli'n ymwneud â materion iechyd meddwl, sef gostyngiad o 55% o'r tri mis blaenorol. Mae 27% o'r atgyfeiriadau hynny'n ymwneud ag iechyd meddwl yn rhai sy'n gysylltiedig â straen yn y gweithle, gostyngiad o 37% ers y tri mis blaenorol. Adroddir mai'r straenachoswyr sy'n gysylltiedig â gwaith yw llwyth gwaith, newid sefydliadol a chanlyniad gwerthusiad swydd. Darperir rhagor o fanylion ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth yn gynwysedig yn y tabl isod. Noder bod y data'n ddangosol gan nad yw achosion iechyd meddwl bob amser o ganlyniad i un straen, a gall cyfuniad o broblemau, e.e. gweithle a phersonol, fod yn chwarae rhan, a bod ein darparwr wedi nodi pan ei fod yn amlwg mai hynny yw'r achos, h.y. rhesymau straen amlweddog.

| **Mis** | **Atgyfeiriadau** | **Iechyd meddwl** | **Straen personol** | **Pryder ac iselder** | **Straen yn y gweithle** | **Straen amlweddog** | **Achosion** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr 2017 | 11 | 4 | 1 | 1 | 2 | 0 | Newid sefydliadol a gwerthusiad swyddi |
| Chwefror 2017 | 11 | 6 | 1 | 3 | 1 | 1 | Baich gwaith a newid sefydliadol |
| Mawrth 2017 | 10 | 5 | 1 | 2 | 1 | 2 | Baich gwaith |
| Cyfanswm | 32 | 15 | 3 | 6 | 4 | 3 | |

6. O edrych ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 2016-17, mae'r tabl isod yn dangos lefel yr absenoldeb oherwydd iechyd meddwl gan gyfeirio at gyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd pob rheswm dros absenoldeb. Mae'r set data a roddir wedi'i rannu hefyd yn absenoldeb tymor hir a thymor byr, a nodir nifer yr achosion absenoldeb oherwydd iechyd meddwl ar wahân. Mae'r data'n awgrymu bod mwy o'n hachosion o absenoldeb oherwydd iechyd meddwl yn ddigwyddiadau tymor byr yn hytrach na rhai tymor hir. Pan ofynnir am atgyfeiriad, mae ein data iechyd galwedigaethol ar gyfer yr un cyfnod yn dangos mai'r prif achosion yw problemau megis straen yn ymwneud â gwaith oherwydd baich gwaith gormodol, newid, ac arweinyddiaeth wael. Fodd bynnag, nid yw hyn yn unig yn rhoi'r darlun cyfan o reidrwydd, gan fod achosion eraill megis straen personol, pryder ac iselder yn achosion hefyd, ac mae'n fwy tebygol eu bod yn gyfuniad o'i gilydd mewn llawer o achosion. Yn fwyaf diweddar, mae ein darparwr wedi cadarnhau bod nifer o atgyfeiriadau'n achos straen yn amlweddog.

| **Absenoldeb 2016-17 – cyfanswm y dyddiau a gollwyd a'r dyddiau a gollwyd oherwydd iechyd meddwl** | | | |
|---|---|---|---|
| | Diwrnodau a gollwyd – absenoldeb | Diwrnodau a gollwyd – iechyd meddwl | Digwyddiadau – iechyd meddwl |
| Cyfanswm | 13017 | 3292 | 283 |
| Tymor byr | 7156 | 718 | 162 |
| Tymor hir | 5861 | 2575 | 121 |
| Absenoldeb tymor hir – achosion absenoldeb 21 diwrnod neu fwy. Absenoldeb tymor byr – achosion absenoldeb rhwng 1 a 21 diwrnod. | | | |

**Mentrau llesiant a datblygiadau**

7. Mae dadansoddiad o absenoldeb iechyd meddwl ac atgyfeiriadau iechyd meddwl gan reolwyr at ein darparwr iechyd galwedigaethol yn dangos bod staff sy'n dangos arwyddion o straen neu sy'n dioddef o straen mewn gwirionedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad a chymorth. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth yn gynwysedig, cafwyd tua 94 achos o absenoldeb wedi'u cofnodi oherwydd problemau iechyd meddwl, nifer tebyg i'r chwarter blaenorol. Gwnaethpwyd 15 atgyfeiriad ar gyfer problemau iechyd meddwl yn yr un cyfnod, eto nifer tebyg i'r chwarter blaenorol.

8. Rydym yn parhau i ddatblygu darlun llawer cliriach o'n sefyllfa mewn perthynas ag absenoldeb ac iechyd meddwl, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i reoli'r problemau hyn yn effeithiol pan gânt eu canfod. Rydym wrthi'n gweithio ar fesurau i atal ac ymdrin â phroblemau iechyd meddwl, gan gydnabod yr effaith bosibl ar staff yn sgil materion megis gwerthusiad swyddi, adolygiadau maes busnes a chynllunio sefydliadol. Rydym hefyd yn atgyfnerthu'r angen i reolwyr llinell ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i atal a rheoli absenoldeb oherwydd iechyd meddwl, e.e. atgyfeirio at Iechyd Galwedigaethol a defnyddio'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau o absenoldeb tymor hir. Yn yr un modd, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o argaeledd yr asesiad risg straen i'w ddefnyddio gyda thimau ac unigolion er mwyn ymdrin yn rhagweithiol â straenachoswyr posibl i helpu i atal absenoldeb tymor byr a rheoli problemau cyfredol mewn modd effeithiol cyn iddynt amlygu i fod yn absenoldeb tymor hwy.

9. Rydym wedi sefydlu nifer o fentrau ac wedi codi ymwybyddiaeth i gefnogi ein hymrwymiad i iechyd a llesiant yn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Wythnos diabetes
- Wythnos iechyd dynion
- Wythnos ymwybyddiaeth sgrinio serfigol
- Wythnos ymwybyddiaeth arthritis gwynegol
- Diwrnod ymwybyddiaeth syndrom Tourettes
- Wythnos ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- Cylchlythyrau hybu lles gan Care First – sut i fod yn fwy gwydn a lleihau eich risg o gael strôc
- Wythnos ymwybyddiaeth haul

10. Roedd yr holl fentrau hyn yn atgoffa staff am y ffyrdd o edrych ar eu holau eu hunain a'u cydweithwyr yn y gwaith a thu allan i'r gwaith, ac yn eu hannog i wneud hynny. Tynnwyd sylw'r staff at y mentrau hyn trwy ein mewnrwyd, diweddariadau ein cylchlythyr misol i reolwyr, tudalennau Yammer, a thrwy ymgysylltu yn ystod Fforymau Iechyd, Lles a Diogelwch lleol a chyfarfodydd tîm.

## Iechyd a diogelwch

**Pennawd ystadegau damweiniau a digwyddiadau a fu bron â digwydd ar gyfer 2017-18 ar 31 Mai 2017, yn ogystal â ffigurau blwyddyn lawn ar gyfer 2014-15, 2015-16 a 2016-17 i'w cymharu.**

| | Digwyddiadau ers y diweddariad diwethaf | Digwyddiadau (2017–18 – hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn) | Blwyddyn lawn 2016-17 | Blwyddyn lawn 2015–16 | Blwyddyn lawn 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus – staff | 0 | 2 | 9 | 12 | 0 |
| Digwyddiadau colli amser – staff | 1 | 1 | 4 | 8 | 2 |
| Digwyddiadau, dim colli amser – staff | 12 | 13 | 85 | 96 | 55 |
| Digwyddiadau trwch blewyn – staff | 26 | 36 | 232 | 304 | 131 |
| Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol | 0 | 2 | 9 | 3 | 4 |
| Digwyddiadau – contractwyr | 1 | 2 | 8 | 6 | 60 |
| Digwyddiadau – y cyhoedd | 23 | 35 | 70 | 60 | |
| Digwyddiadau trwch blewyn – contractwyr | 8 | 10 | 62 | 88 | 98 |
| Digwyddiadau trwch blewyn – y cyhoedd | 3 | 5 | 27 | 76 | |

- Digwyddiad o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR) yw math o ddigwyddiad y mae'n rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdano.
- Digwyddiad colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ei anafu wrth wneud ei waith a'i fod wedi cael amser i ffwrdd o'r gwaith wedi hynny neu wedi bod yn cyflawni dyletswyddau ysgafn yn sgil yr anafiadau a gafodd (rhaid hysbysu amdano o dan RIDDOR os yw'n para dros saith diwrnod). Mae colli amser yn dechrau ddiwrnod ar ôl i'r unigolyn gael ei anafu.
- Digwyddiad dim colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ei anafu wrth wneud ei waith ond bod angen mân driniaeth cymorth cyntaf arno'n unig ac felly nad oes angen iddo gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae digwyddiadau dim colli amser yn cynnwys difrod eiddo i gerbydau ac offer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Digwyddiad trwch blewyn yw digwyddiad heb ei gynllunio neu heb ei reoli nad yw'n achosi anaf, salwch neu ddifrod, ond a allai wneud hynny.
- Mae anafiadau aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â damweiniau ar feiciau mynydd ar ein llwybrau pwrpasol, a llithro, baglu a chwympo ar lwybrau cerdded. Cynhelir asesiad risg ac archwiliadau rheolaidd ar y llwybrau ac maent yn cael eu harchwilio yn dilyn damwain hefyd.
- Mae digwyddiadau fu bron â digwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn bennaf yn dresmasiad gan y cyhoedd ar safleoedd cynaeafu byw.

## Diweddariadau iechyd a diogelwch cyfredol

### Diweddariadau RIDDOR a digwyddiadau colli amser

11. Bu un digwyddiad o weithiwr yn colli amser (pum diwrnod) yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn ar ei gyfer. Roedd yr unigolyn a anafwyd wedi bod yn ail-lenwi tractor â thanwydd ac roedd wedi plygu i lawr i ddatgysylltu'r wifren pŵer o gefn y cerbyd pan deimlodd boen sydyn yng ngwaelod ei gefn a chafodd anhawster i gwblhau'r dasg. Mae'r rheolwr llinell wedi cynnal adolygiad o'r digwyddiad. Cafwyd achosion eraill pan wnaeth yr unigolyn a anafwyd adrodd am boen cefn, felly mae'r rheolwr llinell yn bwriadu gwneud atgyfeiriad at Iechyd Galwedigaethol.

### Diweddariadau ar ddigwyddiadau trwch blewyn

12. Mae nifer yr adroddiadau o ddigwyddiadau a fu bron â digwydd yn uwch ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn na'r un cyfnod yn 2016/17. Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr llinell yn uniongyrchol yn y gwaith o adrodd ac ymchwilio i ddigwyddiadau, a rheoli peryglon iechyd a diogelwch, a hynny trwy ymgyrchoedd ac ymrwymiad. Rydym yn rhagweld y bydd lansio fforymau cyfarwyddiaeth Iechyd, Lles a Diogelwch newydd yn arwain at welliant yn nifer ac ansawdd yr adroddiadau am ddigwyddiadau, a byddwn yn monitro'r cynnydd dros y misoedd nesaf.

**Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol**

13. Mae dau adolygiad presennol o ddigwyddiad difrifol (rhif 10 ac 11 isod) wedi'u cwblhau ers y diweddariad blaenorol. Darperir rhagor o wybodaeth a diweddariadau am yr adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol hynny yn y tabl isod.

| Rhif | Dyddiad | Disgrifiad | Lleoliad | Statws | Y gwersi a ddysgwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 7 Chwefror 2017 | Tra oedd ar ymweliad safle, gwnaeth cyflogai ddarganfod a chludo darn o ordnans byw. | Nant Gwynant, Eryri | Adolygiad wedi'i gwblhau. Adroddiad wrthi'n cael ei gwblhau. | Y ffocws fydd sut i godi ymwybyddiaeth o'r dyfeisiadau hyn gyda'r staff trwy daflen gyfeirio ddarluniadol wedi'i fflagio yn y bwletin iechyd a diogelwch misol, yn hytrach nag ymchwiliad pellach. |
| 11 | 21 Ebrill 2017 | Contractwr coedwigaeth wedi torri ei goes | Plas Nanteos, Aberystwyth | Adolygiad wedi'i gwblhau. Adroddiad wrthi'n cael ei gwblhau. | Adolygiad yn nodi problemau cymhwysedd o ran Cyfoeth Naturiol Cymru a'r contractwr. Ymhlith y rhain roedd:<br>1. Methiant sefydliadol i ddarparu hyfforddiant technegol i staff mewn swyddi gweithredol.<br>2. Pwysau ar adnoddau wedi lleihau'r capasiti i nodi a rhoi sylw i beryglon gweithredol. |

**Adolygiadau cyfredol**

14. **(Diweddariad) Adolygiad o Ddigwyddiad Difrifol (10) symud a chludo ordnans byw –** Ar 7 Chwefror 2017, gwnaeth aelod o staff a oedd yn gwirio effaith geifr yn pori ar ardal aildyfu coed yn Nant Gwynant ddod o hyd i ordnans ar wyneb y tir. Gwnaeth yr aelod o staff gymryd y ddyfais, heb wybod beth yn union yr oedd, a'i chludo yn ei gerbyd gwaith am sawl diwrnod. Aed â'r ordnans, a nodwyd fel rownd morter, i orsaf yr heddlu ym Mangor yn y pen draw ac wedyn cafodd ei dinistrio'n ddiweddarach mewn ffrwydrad rheoledig gan dîm gwaredu ordnans milwrol. Mae cwblhau'r adolygiad hwn yn awgrymu bod y digwyddiad hwn yn ddigwyddiad neilltuol, gan fod ymwybyddiaeth o ordnans mewn safleoedd hysbys yn dda ar y cyfan. Mae ein hasesiadau risg cyffredinol a pherthnasol yn ymdrin ag ordnans fel perygl, a bydd ymwybyddiaeth gyffredinol o ordnans yn cael ei mynegi trwy fwletin misol y rheolwr.

15. **(Diweddariad) Adolygiad o Ddigwyddiad Difrifol (11) damwain yn cynnwys contractwr coedwigaeth.** Ar 21 Ebrill, mewn llannerch cynaeafu cynnyrch yn uniongyrchol ym Mhlasty Nanteos ger Aberystwyth, aed â gweithredwr llif gadwyn i'r ysbyty ar ôl iddo dorri ei goes chwith. Mae'r adolygiad ar gyfer y digwyddiad hwn bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r adroddiad a'r argymhellion wrthi'n cael eu cwblhau. Mae achosion sylfaenol wedi'u nodi a'r camau gweithredu adferol cysylltiedig yn ymwneud â materion cymhwysedd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'r contractwr; methiant sefydliadol i sicrhau bod y staff sy'n goruchwylio gweithrediadau o'r fath wedi mynychu hyfforddiant technegol priodol neu i sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr cymwys, hyd nes bod hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddarparu; ac mae pwysau ar adnoddau wedi lleihau'r capasiti i allu nodi a rhoi sylw i beryglon gweithredol.

**Diweddariadau eraill**

16. **Damwain yn cynnwys contractwr coedwigaeth yng Nghwmgerwyn, Dyfi -** Ar 25 Mai, mewn llannerch arwerthiant sefydlog a mwy ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Fachynlleth, gwnaeth contractwr coedwigaeth dorri asgwrn y forddwyd (coes). Roedd coed yn cael eu winsio i fyny llethr serth lle'r oedd cynaeafwr yn gafael ynddynt i'w prosesu. Daeth un o'r coed yn rhydd a llithro yn ôl i lawr y llethr gan daro ac anafu'r contractwr. Y tro hwn, nid oes Adolygiad o Ddigwyddiad Difrifol wedi'i gomisiynu gan mai cyfrifoldeb y Rheolwr Gwaith Coedwig yw monitro iechyd a diogelwch ar y safle gwaith. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel y Rheolwr Gwaith Coedwig mewn perthynas â'r llannerch hon. Felly, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr Gwaith Coedwig ymchwilio i'r ddamwain a darparu copi o'i adroddiad ymchwil ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun o'r digwyddiad yn gyfyngedig i sicrhau bod cyfrifoldebau'r perchennog tir wedi'u cyflawni.

17. **Modiwl Iechyd a Diogelwch Rheolwyr MyNRW -** Rydym wedi lansio modiwl o fewn MyNRW yn ddiweddar sydd am y tro cyntaf yn caniatáu rheolwyr llinell a'u staff i gofnodi a dogfennu gwybodaeth a chamau gweithredu iechyd a diogelwch allweddol er mwyn gallu dangos rheolaeth dda o beryglon iechyd a diogelwch. Bydd rheolwyr yn gallu cofnodi ac adolygu asesiadau risg gyda'u tîm, a chofnodi gwybodaeth megis y cyfarpar diogelu personol a'r offer iechyd a diogelwch a roddwyd, yr hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddilynwyd, a'r monitro gweithredol a wnaed. Bydd rheolwyr yn gallu cael adroddiadau er gwybodaeth ac i graffu ar berfformiad. Byddwn hefyd yn gallu datblygu rhagor o ddangosyddion ar gyfer ein dangosfwrdd ar sail y wybodaeth a gedwir yn MyNRW. Bydd yn ofynnol i'r rheolwyr llinell a'r timau ddefnyddio'r modiwl hwn, a bydd yn cymryd lle'r atebion dros dro sydd ar waith yn dilyn colli systemau etifeddol ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.

**<u>Argymhellion</u>**

18. Nodi materion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn.

**<u>Risgiau allweddol</u>**

19. Caiff risgiau llesiant, iechyd a diogelwch parhaus eu nodi a'u monitro trwy gyfrwng y gofrestr risg llesiant, iechyd a diogelwch wedi'i diweddaru. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

**Goblygiadau ariannol**

20. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol. Mae buddsoddiad yng ngofynion dysgu a datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gynnwys yng nghyllideb hyfforddiant 17/18. Mae hawliadau atebolrwydd cyflogwr yn bosibl yn y dyfodol mewn perthynas â chlefyd Syndrom Dirgryniad Braich–Llaw.

**Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

21. Ni chynhaliwyd asesiad ar gyfer y papur briffio hwn.